**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod Y Cabinet

**Siambr y Cyngor, Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Gwener, 14 Rhagfyr 2018 am 10.00 am**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd R C Stewart (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| J E Burtonshaw | M C Child | R Francis-Davies |
| D H Hopkins | E J King | A S Lewis |
| C E Lloyd | | |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): J A Raynor a/ac M Thomas

---

## 103. Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, cyhoeddwyd y cysylltiadau canlynol:

1) Datganodd y Cynghorydd E J King gysylltiad personol a rhagfarnol â Chofnod 107 "Abertawe Gynaliadwy - yn Addas i'r Dyfodol: Cynigion Cyllidebol 2019/20 - 2022/23" a gadawodd y cyfarfod cyn ei ystyried.

## 104. Adroddiad(au) Arweinydd y Cyngor.

Ni wnaed unrhyw gyhoeddiadau gan Arweinydd y Cyngor.

## 105. Cwestiynau gan y cyhoedd.

Gofynnwyd nifer o gwestiynau mewn perthynas â Chofnod 107 "Abertawe Gynaliadwy - Yn Addas i'r Dyfodol: Cynigion Cyllidebol 2019/20 – 2022/23".

Ymatebodd Arweinydd y Cyngor.

## 106. Hawl i holi cynghorwyr.

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

## 107. Abertawe Gynaliadwy - yn addas i'r dyfodol: cynigion cyllidebol 2019/20 - 2022/23.*

***Gweithdrefn Galw i Mewn - Brys:*** *Mae'r penderfyniad hwn yn rhydd o Weithdrefn Galw i Mewn yr awdurdod gan fod "naill ai Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig, y Swyddog Adran 151 neu'r Swyddog Monitro'n ardystio y gallai unrhyw oedi sy'n*

*debygol o gael ei achosi gan y weithdrefn galw i mewn wneud niwed i'r cyngor neu fudd y cyhoedd, gan gynnwys methu cydymffurfio â gofynion statudol".*

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros yr Economi a Strategaeth adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer cynigion cyllidebol 2019/2020 a 2022/23 fel rhan o *Strategaeth Gyllidebol y Cyngor, Abertawe Gynaliadwy - Yn Addas i'r Dyfodol.*

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo'r cynigion cyllidebol a grynhoir yn yr adroddiad ac y manylir arnynt yn Atodiad A ac Atodiad C fel sail ymgynghori;

2) Mabwysiadu rhagolygon diweddaraf y gyllideb ar gyfer y dyfodol fel y sylfaen cynllunio ar gyfer cynllun ariannol tymor canolig newydd, a fydd yn cael ei ystyried gan y cyngor ar 28 Chwefror 2019;

3) Cytuno ar yr ymagwedd ymgynghori ac ymgysylltu â staff, undebau llafur, preswylwyr a phartïon eraill â diddordeb, a amlinellir yn adran 7 yr adroddiad;

4) Cyflwyno adroddiad ar ganlyniad yr ymgynghoriad a'r cynigion cyllidebol terfynol i'r Cabinet yn ystod ei gyfarfod ar 14 Chwefror 2019.

Daeth y cyfarfod I ben am 10.25 am

**Cadeirydd**

| **Gweithdrefn Galw i Mewn – Dyddiadau Perthnasol** | |
|---|---|
| Dyddiad cyhoeddi: | 14 December 2018 |
| Cyfnod Galw i Mewn yn dod i ben<br>(3 diwrnod gwaith clir ar ôl cyhoeddi): | - |
| Penderfyniad yn dod i rym: | 14 Rhagfyr 2018 |